

Adnodd 1: Elidyr yn y Byd Arall

Y stori hon (a ysgrifennwyd gan Gerallt Gymro ym 1188) yw'r chwedl hynaf sydd gennym yng Nghymru.

Un tro, roedd yna fachgen nad oedd yn hoffi'r ysgol. Elidyr oedd ei enw. Roedd Elidyr yn meddwl bod y gwersi'n rhy anodd ac yn rhy ddiflas. Roedd ei athrawon yn gas. Roedden nhw'n gweiddi ar Elidyr ac yn ei daro am beidio â gweithio'n ddigon caled. Felly, un diwrnod, penderfynodd Elidyr redeg i ffwrdd.

Aeth e ddim adref rhag ofn y byddai ei rieni'n ei anfon yn ôl i'r ysgol. Cuddiodd mewn pant wrth lan yr afon. Arhosodd yn ei guddfan am ddau ddiwrnod cyfan. Roedd wedi dod â rhywfaint o fara a chaws gydag ef a dŵr i'w yfed, ond buan iawn y daethon nhw i ben. Doedd Elidyr ddim yn gwybod beth i'w wneud nesaf.

Ar y trydydd diwrnod, gwelodd ddau ddyn bach, bach wrth lan yr afon. Edrychodd y ddau i fyny arno a gwenu.

“Tyrd gyda ni blentyn. Tyrd i wlad heb unrhyw drafferthion, lle mae pawb yn garedig ac yn dda.”

Penderfynodd Elidyr fynd gyda nhw. Dilynodd y dynion bach drwy dwll yn y ddaear. I lawr, i lawr, i lawr drwy'r tywyllwch mwsoglyd yr aethant. O'r diwedd arweiniodd y twnnel i wlad arall. Roedd y wlad yn hardd ond nid oedd haul na lleuad na sêr yno. Roedd popeth yn y wlad yn fach ac roedd Elidyr, er mai dim ond bachgen 12 oed oedd e, yn gawr.

Aeth y dynion bach ag Elidyr i'r palas i gwrdd â'r brenin a'r frenhines. Roedden nhw i gyd yn garedig iawn a chafodd ei groesawu i'w gwlad. Roedd gan y brenin a'r frenhines fab a daeth Elidyr a'r tywysog yn ffrindiau da.

Roedd Elidyr yn hapus iawn yn y byd arall. Roedd yn union fel y dywedodd y dynion bach, nid oedd unrhyw drafferthion yno ac roedd pawb yn garedig ac yn dda. Roedd y brenin a'r frenhines yn gadael iddo fynd i ble bynnag yr oedd yn dymuno. Wrth gwrs, nid oedd eisiau mynd yn ôl i'r ysgol, ond roedd eisiau mynd adref i weld ei Fam a'i Dad i roi gwybod iddyn nhw ei fod yn ddiogel ac i ddweud wrthyn nhw am ei anturiaethau yn y byd arall.

Dywedodd wrth ei rieni pa mor hardd oedd y byd arall a faint o aur oedd gan y bobl yno. Dywedodd wrthyn nhw am y cwpanau a'r platiau a'r powlenni wedi'u gwneud o aur, a bod hyd yn oed teganau'r plant wedi'u gwneud o aur.

Roedd rhieni Elidyr yn dlawd iawn ac oedd Elidyr eisiau eu helpu. Meddylodd pe byddai'n dod â rhywfaint o aur iddyn nhw o'r byd arall, bydden nhw'n hapus ac yn gyfoethog.

Un diwrnod, pan oedd yn chwarae, gafaelodd mewn pelen aur a'i chuddio o dan ei ddillad. Yna cerddodd tuag at y twneli a oedd yn arwain i'w fyd ef. Nid oedd Elidyr wedi mynd ymhell i lawr y twnnel pan glywodd sŵn traed y tu ôl iddo yn y tywyllwch. Dechreuodd redeg. Daeth y sŵn traed yn uwch ac yn gyflymach. Roedd rhywun yn ei ddilyn. Rhedodd Elidyr mor gyflym ag y gallai i lawr y twnnel, allan drwy'r goedwig, ar draws y cae ac yn ôl i'w gartref. Roedd rhywun yn rhedeg ar ei ôl. Cyrhaeddodd ei ddrws ffrynt a baglodd dros y stepen a rholiodd y belen aur o'i boced. Cafodd y tŷ ei lenwi gyda golau aur disglair am foment ac roedd ei fam a'i dad wedi synnu. Yna cyrhaeddodd y dynion bach a chipio'r belen aur yn ôl. Syllodd y ddau yn ddig ar Elidyr cyn diflannu.

Roedd cywilydd mawr ar Elidyr. Roedd yn gwybod bod yr hyn yr oedd wedi'i wneud yn beth drwg. Penderfynodd fynd yn ôl i'r byd arall i ymddiheuro. Ond pan aeth i lan yr afon ni allai ddod o hyd i'r twll yn y ddaear. Roedd y fynedfa i'r twnnel wedi diflannu. Chwiliodd yn galed, ond ni ddaeth o hyd iddo fyth eto.

Ymhen dipyn, aeth Elidyr yn ôl i'r ysgol. Gweithiodd yn galed a chafodd ganlyniadau da. Pryd bynnag y byddai'n adrodd y stori am ei anturiaethau yn y byd arall, byddai dagrau yn dod i'w lygaid. Roedd yn ddrwg iawn ganddo ei fod wedi dwyn y belen aur. Roedd y byd arall mor hardd, a theimlai'n drist gan na fyddai byth yn ei weld eto.